PROSIECT LLOCHES YNG NGHYMRU

ASESIAD TERFYNOL

MAI 2015

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

OXFAM

LLOCHES YNG NGHYMRU

Mae Prosiect Lloches yng Nghymru wedi rhoi cyfleoedd i geiswyr noddfa (ffoaduriaid a cheiswyr lloches) sy'n ferched yng Nghymru rhwng 2012-2015.

Ariannwyd y prosiect gan Y Gronfa Loteri Fawr ac Oxfam Cymru fu'n cydlynnu'r gwaith mewn pedair ardal yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â Oasis Cardiff yng Nghaerdydd, Canolfan Gymunedol Affricanaidd yn Abertawe, Alltudion ar Waith, Eglwys Gymunedol Bethel yng Nghasnewydd a BAWSO yn Wrecsam. Ym mhob ardal roedd Oxfam hefyd yn gweithio gyda Busnes yn y Gymuned, oedd yn dod o hyd i gyfleoedd gwaith gwirfoddol i'r merched. Mae partneriaid y prosiect hefyd wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yn y pedair ardal.

Mae'r wybodaeth yma yn ddarn o waith ymchwil a wnaed gan Ymchwil Arad am y prosiect, ac mae'n cynnwys argymhellion polisi ac arferion sydd wedi codi o'r prosiect.

"Roedden nhw (staff y prosiect) wir yn fy annog i wneud y cyrsiau. Hebddyn nhw mi fyddwn i adra yn gwneud dim, nawr mae gen i rywbeth i edrych ymlaen ato bob wythnos."

Aelod o'r Prosiect

GWEITHGAREDDAU'R PROSIECT

Mae dros 450 o ferched wedi cymryd rhan yn y prosiect (gweler tabl 1 am gasgliad o lwyddiannau'r prosiect). Mae'r prosiect wedi cynnal nifer o weithgareddau:

Cefnogaeth ac arweiniad un i un: Roedd hyn ar gael i'r ceiswyr lloches trwy ddull Bywoliaethau Cynaliadwy (SLA)[1]. Roedd hyn yn galluogi'r merched i benderfynu beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant a chyfleoedd eraill.

Gweithgareddau grŵp a sesiynau galw heibio: Roedd y rhain yn cael eu cynnig yn ogystal â chyfleusterau gwarchod plant. Roedd y sesiynau yn cynnig gofod saff i dros 450 o ferched i gefnogi ei gilydd, datblygu cyfeillgarwch ac yn fforwm iddynt ddysgu mwy am gyfleoedd a gwasanaethau lleol.

Profiad gwaith gwirfoddol: Mae 75 o ferched wedi bod ar leoliad gwaith gwirfoddol gyda chyflogwyr o'r sector gyhoeddus, breifat a'r trydydd sector. Roedd y prosiect yn talu am deithio a gwarchod plant ac ar ôl i'r arian ddod i ben roedd modd i rai o'r sefydliadau gwaith dalu'r costau er mwyn i'r merched barhau â'u profiad gwaith.

Hyfforddiant Cyflogadwyedd Roedd yr hyfforddiant yma yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a hyder merched yn y gweithle yn y DU mewn gweithdy deuddydd. Cynhaliwyd y gweithdy gan aelodau busnes Busnes yn y Gymuned ac roedd yn cynnwys adborth ar CV a chyfweliadau ffug gyda gwirfoddolwyr busnes.

Hyfforddiant Swydd: Fel rhan o'r prosiect mae Busnes yn y Gymuned wedi hyfforddi 15 o wirfoddolwyr o wahanol sefydliadau fel hyfforddwyr swydd. Roedd yr hyfforddwyr yn cwrdd ag aelodau'r prosiect yn gyson er mwyn eu helpu i gyrraedd eu nodau, edrych am swyddi neu gyfleoedd gwirfoddoli, a chynnal eu cymhelliant.

Ymweld â Chwmnïau Cynhaliwyd ymweliadau â chwmnïau yn ogystal â hyfforddiant cyflogadwyedd yn Wrecsam, yn lle profiadau gwaith gwirfoddol neu hyfforddiant swydd. Roedd y cyfloedd hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth yr aelodau o weithle'r DU a'r farchnad waith lleol.

Dosbarthiadau Saesneg Cynhaliwyd y rhain gan aelodau o'r prosiect oedd eisoes â Saesneg da neu gan wirfoddolwyr eraill ac roeddent yn boblogaidd iawn gan eu bod yn gwella sgiliau cyfathrebu ac o gymorth wrth i'r merched geisio dod o hyd i waith.

Hyfforddiant i ddysgu Saesneg: Trefnwyd hyn gan Brifysgol Abertawe a hyfforddiwyd 31 o ferched, oedd wedyn yn cynnal dosbarthiadau yn y sesiynau galw heibio.

Grwpiau Ffrindiau a Chymdogion: sefydliwyd y rhain yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Roeddent yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr gyda'r bwriad o annog dealltwriaeth a chyfeillgarwch rhwng pobl leol a chymuned y ceiswyr noddfa.

Hyfforddiant eiriolaeth: cynhaliwyd yr hyfforddiant gan Merched yn Gwneud Gwahaniaeth ac yn Creu Cymunedau ar gyfer 45 aelod o'r prosiect, gan godi eu hyder a'u gallu i ymwneud â darparwyr gwasanaethau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Digwyddiadau cyfarfod o amgylch y bwrdd: cynhaliwyd y rhain yn Wrecsam, Casnewydd a Chaerdydd gan gynnig cyfle i dros 50 o aelodau'r prosiect drafod unrhyw broblemau gyda darparwyr gwasanaethau lleol.

"Mae'r ddwy awr a hanner yn mynd yn gyflym – dwyt ti ddim yn meddwl am dy sefyllfa pan ti yno"

Aelod o'r Prosiect

"Wrth fynd allan, a siarad â phobl, rydw i wedi dysgu i gyfathrebu, i fod yn fwy hyderus, i fod yn amyneddgar gyda phobl a datblygu fy sgiliau gwrando"

Aelod o'r Prosiect

"Rydw i'n angerddol iawn am fy ngwaith ac roeddwn i'n awyddus i gael dealltwriaeth well o'r bobl yr oeddwn i'n delio gyda nhw ar y ffôn wrth eu cyfarfod wyneb yn wyneb."

Hyfforddwr Swydd

"Roedd y merched yn anhygoel, yn ymroddgar, yn cyrraedd ar amser... maen nhw yn werthfawr iawn, y gweithwyr caletaf dwi erioed wedi eu cyfarfod, a rhai dyddiau mi fyddwn i wedi gorfod cau'r caffi oni bai amdanyn nhw"

Aelod o staff mewn lleoliad gwaith ble oedd y merched yn gwirfoddoli

[1] Mae'r SLA yn rhannu rhinweddau i bum categori: (1) rhinweddau dynol – addysg a sgiliau, iechyd; (2) rhinweddau cymdeithasol – teulu a ffrindiau/cymdogion; (3) rhinweddau cyhoeddus – gwasanaeth cymdeithasol lleol a mwynderau; (4) rhinweddau ariannol – pob ffynhonnell incwm; (5) – rhinweddau materol – tai a mynediad at drafnidiaeth, yr amgylchedd lleol a nwyddau gwynion sylfaenol.
Am ragor o wybodaeth ewch i http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/the-sustainable-livelihoods-approach-toolkit-for-wales-297233

CANLYNIADAU AC EFFAITH

Yn fras mae'r prosiect wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol ac wedi cyrraedd y targedau, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i aelodau'r prosiect. Mae'r adran hon yn trafod y canlyniadau fesul un.

Tabl 1: Targedau allweddol a chyflawniadau Prosiect Lloches yng Nghymru

Allbynnau'r Prosiect	Targedau	Rhifau terfynol
Wedi, neu ar ganol gwirfoddoli	69	75
Merched yn mynd am ragor o addysg neu hyfforddiant	68	140
Athrawon Saesneg wedi eu hyfforddi	27	31
Merched wedi cymryd rhan mewn gwersi Saesneg galw heibio	360	457*
Cyflogwyr yn rhan o'r prosiect	90	80
Pencampwyr cymunedau wedi eu hyfforddi	25	45

** Mae hyn yn cynnwys gwersi Saesneg a gynhaliwyd tu allan i'r prosiect gan aelodau'r prosiect*

Canlyniad 1: Bydd gan y merched fwy o sgiliau, bydd ganddynt ddealltwriaeth well o gyfloedd, ac yn fwy parod i fynd ymlaen i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant ffurfiol.

- Mae'r merched wedi derbyn hyfforddiant arbenigol trwy amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys cadw cyfrifon, gofal plant ac arlwyaeth.
- Roedd aelodau'r prosiect hefyd yn cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant eraill, gan gynnwys hylendid bwyd ac amddiffyn plant.
- Dywedodd aelodau'r prosiect pa mor bwysig oedd y cyfloedd hyfforddiant iddyn nhw, a faint oedden nhw wedi codi eu hyder.
- Roedd cyrsiau achrededig yn arbennig o boblogaidd gan yr aelodau gan fod y tystysgrifau yn adlewyrchiad da ar gyfer gwaith yn y dyfodol a hefyd ar gyfer eu hachos lloches.
- Roedd y prosiect yn talu am gostau gwarchod plant a chostau teithio ac roedd hyn yn cael ei weld fel elfen hanfodol o gefnogaeth y prosiect.
- Weithiau doedd dim modd i ofal plant gael ei drefnu mewn pryd, ac er bod cymuned gref ymysg y merched oedd yn caniatau ar gyfer gofal plant answyddogol o bryd i'w gilydd, roedd hyn weithiau yn golygu bod merched yn gorfod rhoi'r gorau i'w cyrsiau oherwydd diffyg gofal plant.

Canlyniad 2: Bydd y merched yn cael swyddi ac ar y trywydd iawn i ennill cymwysterau.

- Roedd oddeutu 70% o aelodau'r prosiect yn geiswyr loches felly doedd dim modd iddynt gael cyflogaeth am dâl. Ond bellach mae 19 o aelodau'r prosiect mewn cyflogaeth am dâl.
- Roedd nifer o aelodau'r prosiect yn gwirfoddoli yn wythnosol mewn amrywiaeth o swyddi gan gynnwys manwerthu, arlwyaeth, gweinyddu, gwaith cefnogi a gwaith derbynfa, ac felly yn cyfrannu yn eu cymuned a'u cymdeithas.
- Roedd nifer o'r aelodau hefyd yn gwirfoddoli yn eu canolfannau, gan roi gwersi Saesneg i ferched eraill, yn cynorthwyo gyda'r sesiynau galw heibio ac yn gwirfoddoli yn y ceginnau.
- Roedd yr aelodau yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn tystysgrif fel canlyniad o unrhyw hyfforddiant neu gwrs.
- Roedd yr hyfforddiant cyflogadwyedd yn werthfawr er mwyn paratoi'r merched at fyd gwaith.

Canlyniad 3: Bydd y merched yn llai unig, bydd ganddynt rwydwaith cymunedol cryfach, a byddant yn fwy gweithgar o fewn eu cymunedau.

- Roedd yn amlwg bod nifer o'r merched oedd yn ceisio lloches yn y DU yn unig iawn ar ôl cyrraedd yma. Roedd hyn yn waeth ar gyfer y rhai oedd heb lawer o Saesneg.
- Meddai pob un oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg bod ganddyn nhw nawr fwy o ffrindiau, oedd yn arwain at rwydwaith newydd yn gymdeithasol ond hefyd yn ymarferol, oedd yn helpu gyda'r broses o geisio lloches yn y DU.
- Wrth iddynt fagu hyder roedd y merched yn fwy gweithgar yn eu cymunedau, yn mynychu gweithgareddau ac yn cael swyddi rhan-amser.
- Roedd sefydliadau oedd yn derbyn gwirfoddolwyr yn dweud bod eu staff wedi dysgu llawer am ddiwylliant a chrefydd wrth gael y merched yn gwirfoddoli gyda nhw.

Wrth gyrraedd y DU...

"Roedd bywyd yn ddryslyd, yn boenus iawn, roeddwn i'n unig."

Ar ôl cymryd rhan yn y prosiect...

"Does dim yn ein dal yn ôl, fedrwn ni ddim gweithio ond mi fedrwn ni wneud pethau eraill."

Aelod o'r Prosiect"

"Cyfarfod merched gwahanol, rhannu profiadau, mae'n teimlo fel cartref, rhannu straeon; mae'n ein cynnal"

Aelod o'r Prosiect

"Pan yn bryderus rydym ni'n dod yma, ac mae siarad yn gwneud i ni deimlo'n well."

Aelod o'r Prosiect

"Rydw i wir wedi mwynhau gweithio gyda phawb, ac mae'n drist ei fod yn dod i ben, ond i mi mae'r profiad wedi bod yn bositif iawn, ac wedi rhoi dealltwriaeth well i mi o'r problemau sy'n eu hwynebu.

Rwy'n gobeithio y bydd mwy o brosiectau fel hyn er mwyn i mi wirfoddoli eto."

Hyfforddwr swydd

Canlyniad 4: Bydd y merched yn defnyddio mwy o wasanaethau, yn iachach a bydd eu safonau byw yn uwch.

- Wrth rwydweithio a chefnogi ei gilydd roedd y merched yn magu hyder ac yn dysgu mwy am Gymru a'u cymuned leol.
- Roedd nifer o'r merched yn dweud bod eu hiechyd a'u hiechyd emosiynol wedi gwella ers bod yn rhan o'r prosiect, a bod hynny yn wir am eu teuluoedd hefyd.
- Roedd y sesiynau galw heibio yn le saff i'r merched a'u plant gyfarfod eu ffrindiau ac i gael cefnogaeth gan y staff.
- Bu aelodau'r prosiect ac aelodau o'r gymuned leol yn rhannu profiadau bywyd gan annog i bawb wneud mwy gyda'i gilydd yn y gymuned leol.
- Cafodd y prosiect effaith ehangach hefyd wrth i aelodau o deuluoedd y merched ddod i'r gwersi Saesneg a dechrau gwirfoddoli.

Roedd buddion ac effeithiau ehangach i'r prosiect gan gynnwys yr effaith ar gyflogwyr oedd yn cymryd rhan.

- Roedd y gweithwyr wnaeth gymryd rhan yn yr hyfforddiant cyflogadwyedd a'r hyfforddiant swydd yn dweud bod hyn wedi gwella eu gwybodaeth am ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Roedd cyflogwyr yn dod i ddeall sut mae eu rhan nhw yn y prosiect yn help o ran eu cyfrifoldebau corfforaethol a chymdeithasol.
- Roedd gweithwyr hefyd yn fwy hyderus ar ôl cymryd rhan yn y gweithdai a'r ffug gyfweliadau, gan roi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau.

YSTYRIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL

Wrth feddwl am gefnogi aelodau'r prosiect, mae angen:

1. Parhau i gynnig **cyfleoedd iddynt wella eu sgiliau iaith Saesneg**. Roedd gan rhai aelodau lefel uchel o Saesneg yn barod felly mae'n bwysig sicrhau bod cyrsiau addas ar eu cyfer.
2. Pan yn bosib, **dylai tystysgrif gael ei roi ar ddiwedd cwrs**. Roedd yr aelodau yn gweld hyn yn werthfawr iawn.
3. Parhau i ddefnyddio **dull personol** sy'n caniatau hyblygrwydd o ran nawdd, costau teithio, gofal plant a chyrsiau.
4. **Mae cefnogaeth 1:1 yn allweddol** er mwyn pennu anghenion unigolion mewn gofod saff sy'n cyfrannu at les unigolion a'u teuluoedd.
5. Dylai'r galw am gyfleoedd i wirfoddoli barhau a hynny trwy **hyfforddiant cyflogadwyedd a hyfforddiant swydd**.

Gwersi ar gyfer trefnu prosiect o'r fath:

6. Gallai'r **Dull Bywoliaethau Cynaliadwy** fod yn ddull cyfranogol defnyddiol er mwyn deall profiad unigolion. Byddai parhau i gynnal hyfforddiant a rhannu arferion yn cryfhau'r dull.
7. Mae **gofal plant hyblyg** yn bwysig er mwyn rhoi'r cyfle i'r aelodau wirfoddoli neu astudio ymhellach.
8. Roedd cynnwys **elfen o fentergarwch** fel rhan o'r hyfforddiant cynaladwyedd yn ddefnyddiol yn ôl rhai o'r aelodau.
9. Mae lle i gryfhau'r **elfen o gynnwys** wrth gyflwyno 'model bod yn gyfaill'.
10. Roedd **cyfathrebu agored** rhwng staff y prosiect yn rhan allweddol o'r prosiect a dylai gael ei gynnwys yn y dyfodol.
11. Gallai **cwmnïau oedd yn derbyn gwirfoddolwyr wneud defnydd o ragor o wybodaeth am amgylchiadau'r unigolyn** dan sylw. Gallai fod o fydd iddynt wrth deilwra'r rôl wirfoddoli mewn ffordd addas.
12. Byddai modd **datblygu fforwm gyfathrebu ar y we ar gyfer staff y prosiect ac aelodau'r prosiect** er mwyn annog pobl i rannu syniadau a chynnal eu cyfeillgarwch newydd.

ARGYMHELLION POLISI

Mae'r argymhellion polisi hyn wedi codi o adborth gan aelodau'r prosiect trwy gydol y prosiect:

- Byddai **trafnidiaeth gyhoeddus am ddim ar gyfer ceiswyr lloches a'u plant** yn sicrhau bod modd iddynt gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, yr ysgol a choleg.
- Dylai **holl wasanaethau iechyd yng Nghymru wneud defnydd o linell iaith neu wasanaethau cyfieithu** fel rhan o'u gwasanaeth iechyd lleol.
- **Dylid darparu cefnogaeth iechyd meddwl** ar gyfer ceiswyr lloches sydd ei angen, yn enwedig pobl sydd wedi bod trwy drawma difrifol, fel bod cyfnodau aros mor fyr â phosib.
- **Tai o safon uwch** ar gyfer ceiswyr lloches, gyda mesurau cyfrinachol ac ymatebol wrth law pan fo problemau yn codi.
- **Diddymu'r cyfnod 28 diwrnod i 'symud ymlaen'** ar gyfer y rhai sy'n cael hawl i aros – dim ond unwaith mae'r holl waith papur mewn lle a thŷ arall ar gael y dylid bod rhaid i bobl symud.
- **Mae pobl yn cael eu gadael yn y broses o geisio lloches yn rhy hir** – dylid rhoi terfyniad o 3 blynedd ar wneud penderfyniad.
- Adfer yr **hawl i geiswyr lloches gael gweithio**.
- **Ailosod cefnogaeth wyneb i wyneb ar gyfer ceiswyr lloches** – tydi llinell ffôn Migrant Help ddim yn ddigonol.
- Dylai bod **cyngor cyfreithiol o safon, a hwnnw yn lleol ac am ddim** fod ar gael trwy gydol y broses o geisio am loches.
- Dylai **cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) barhau a dylai bod gofal plant ar gael er mwyn i rieni allu mynychu'r cyrsiau.**

Mae Oxfam yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 202918. Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam Rhyngwladol.
Ariennir y prosiect Lloches yng Nghymru gan Gronfa Loteri Fawr Cymru.
Dyluniwyd ac argraffwyd gan Slicker Designs www.slickerdesigns.co.uk